OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 1765 (Cy.154)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Pasbortau Planhigion) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *19 Mehefin 2007* |
| *Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *20 Mehefin 2007* |
| *Yn dod i rym - -* | *13 Gorffennaf 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56 o Ddeddf Cyllid 1973(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Pasbortau Planhigion) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 13 Gorffennaf 2007 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdodiad" ("*authority*") yw awdurdodiad i ddyroddi pasbortau planhigion a roddir o dan erthygl 8 o Orchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*) (Cymru) 2006(**2**) neu, yn ôl y digwydd, o dan erthygl 29 o Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**3**); a

mae i'r ymadrodd "pasbort planhigion" ("*plant passport*") yr ystyr a roddir iddo gan—

(a) erthygl 2 o Orchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) 2006 o ran awdurdodiad o dan y Gorchymyn hwnnw; neu

(b) erthygl 2(1) o Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 o ran awdurdodiad o dan y Gorchymyn hwnnw.

(**1**) 1973 p. 51. Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pwer hwn yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p. 32).
(**2**) O.S. 2006/1344 (Cy.134).
(**3**) O.S. 2006/1643 (Cy.158).

### Ffioedd am arolygiadau at ddibenion pasbortau planhigion

**3.**—(1) Rhaid talu'r ffi a bennir ym mharagraff (2) i Weinidogion Cymru o ran unrhyw arolygiad (gan gynnwys gwiriad o gofnodion busnes) sy'n cael ei gynnal mewn cysylltiad ag—

(a) cais am awdurdodiad; neu

(b) sicrhau cydymffurfedd ag unrhyw ofynion a osodir ar ddeiliad awdurdodiad yn rhinwedd erthygl 8 o Orchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) 2006 neu erthygl 29 o Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006.

(2) Y ffi yw £20.25 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr y mae arolygydd yn ei dreulio ar y safle gyda lleiafswm o £40.50 o ran unrhyw ymweliad.

### Dirymu

**4.** Dirymir y Rheoliadau canlynol i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru—

(a) Rheoliadau Pasbortau Planhigion (Ffioedd Iechyd Planhigion) (Cymru a Lloegr) 1993(**4**); a

(b) Rheoliadau Pasbortau Planhigion (Ffioedd Iechyd Planhigion) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 1997(**5**).

*Jane Davidson*
Y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu
Gwleidig un o Weinidogion Cymru

19 Mehefin 2007

(**4**) O.S. 1993/1642.
(**5**) O.S. 1997/1961.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn rhagnodi ffioedd o ran arolygiadau a wneir at ddibenion rhoi awdurdod i ddyroddi pasbortau planhigion (gan gynnwys gwirio cofnodion busnes) o dan naill ai Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1643 (Cy. 158)) neu Orchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*) (Cymru) 2006 (O.S. 2004/1344 (Cy. 134)) ("y Gorchmynion").

O dan y Gorchmynion, mae'n ofynnol i blanhigion rhestredig penodol, cynhyrchion planhigion penodol a gwrthrychau eraill gael pasbort planhigion ar gyfer symud o fewn y Gymuned Ewropeaidd gan gynnwys unrhyw fasnachu o fewn y Deyrnas Unedig. Caiff Gweinidogion Cymru awdurdodi cynhyrchwyr, masnachwyr a mewnforwyr deunyddiau o'r fath i ddyroddi pasbortau planhigion. Mae'r broses awdurdodi ddechreuol yn golygu arolygu'r fangre a'r deunydd planhigion rhestredig ac mae'n cynnwys gwirio cofnodion busnes a chaniateir cynnal arolygiadau pellach ar ôl rhoi'r awdurdodiad er mwyn sicrhau cydymffurfedd â gofynion perthnasol.

Pennir y ffioedd sy'n daladwy o ran y cyfryw arolygiadau yn rheoliad 3(2).

Mae rheoliad 4 yn dirymu Rheoliadau Pasbortau Planhigion (Ffioedd Iechyd Planhigion) (Cymru a Lloegr) 1993 (O.S. 1993/1642) a Rheoliadau Pasbortau Planhigion (Ffioedd Iechyd Planhigion) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 1997 (O.S. 1997/1961). Nid oes newid yn lefel y ffioedd a geir yn O.S. 1997/1961 ond maent yn awr yn gymwys hefyd i awdurdodiadau o dan Orchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*) (Cymru) 2006.

Paratowyd Arfarniad Rheoliadol ar gyfer y Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.